

Gwybodaeth Undebol

Penderfyniadau Cynhadledd Flynyddol UCAC 2017

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

A Newidiadau i Gyfansoddiad a/neu Drefniadaeth yr Undeb

Penderfyniad 1: Cyfansoddiad y Cyngor Cenedlaethol

Mae'r Cyngor Cenedlaethol yn galw ar y Gynhadledd i newid cyfansoddiad UCAC i ganiatáu diogelu un sedd ychwanegol ar y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer athro sy'n gymharol newydd i'r proffesiwn (ym 5 mlynedd gyntaf eu gyrfa addysgu):

RHEOL 8 – ETHOL IS-LYWYDD AC AELODAU'R CYNGOR (Dylid gweithredu'n unol â gofynion statudol ethol Swyddogion Undebau Llafur)

- (a) (i) Bydd hawl gan bob aelod, yn amodol ar (a)(ii) isod a chyda chefnogaeth deg aelod, sefyll etholiad am yr Is-lywyddiaeth. Yn ogystal, gall Pwyllgor Gwaith pob Cymdeithas Sir enwebu un aelod ar gyfer yr Is-lywyddiaeth.
- (ii) Rhaid i'r aelod a enwebir fod wedi bod yn aelod o'r Undeb am dair blynedd yn union cyn yr etholiad.
- (iii) Cyflwynir cais pob aelod unigol ac enwebiadau Pwyllgor Gwaith y Cymdeithasau Sir i'r Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn 14 Rhagfyr bob blwyddyn. Mewn achos o dderbyn mwy nag un enwebiad bydd yntau wedyn yn trefnu etholiad trwy bleidlais bost.
- (iv) Bydd gan bob aelod o'r Undeb hawl i un bleidlais ar gyfer ethol Is-lywydd.
- (b) Os daw bwlch yn swydd y Llywydd neu'r Is-lywydd, llenwir y swydd dros dro gan y Cyngor hyd nes y cynhelir etholiad neu hyd ddiwedd y flwyddyn lywyddol honno.
- (c) (i) Gall unrhyw aelod, gyda chefnogaeth chwe aelod arall, enwebu hyd at ddau gynrychiolydd i gynrychioli'r Gymdeithas Sir ar y Cyngor Cenedlaethol. Bydd hefyd yn agored i bob aelod, gyda chefnogaeth deg aelod o'i Gymdeithas Sir, sefyll etholiad am sedd ar y Cyngor Cenedlaethol.
- (ii) Rhaid i bob cais ac enwebiad gael eu cyflwyno ar y ffurflen bwrpasol a geir o'r Brif Swyddfa a rhaid iddynt gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn 30 Tachwedd ym mlwyddyn yr etholiad.
- (iii) Rhaid i'r personau a enwebir ac ymgeiswyr unigol fod wedi bod yn aelodau o'r Undeb am dair blynedd yn union cyn yr etholiad.
- (iv) Deil cynrychiolwyr y siroedd eu seddau ar y Cyngor Cenedlaethol o drannoeth cau Cynhadledd Flynyddol yr Undeb lle cyhoeddir eu

hethol, hyd at ddiwrnod olaf y Gynhadledd Flynyddol a gynhelir ymhen tair blynedd. Gellir eu haillethol.

- (v) Mewn amgylchiadau anorfod, bydd hawl gan gynrychiolydd anfon dirprwy swyddogol ei Gymdeithas Sir yn ei le. Ni fydd gan y dirprwy bleidlais yn y Cyngor Cenedlaethol. Penodir dirprwyon gan Bwyllgor Gwaith y Gymdeithas Sir yn unol â Rheol 10(e).
- (vi) Bydd aelodau o'r Cyngor a etholir yn y dull hwn yn aelodau yn rhinwedd eu swyddi o Bwyllgorau Gwaith eu Cymdeithas Sir gyda chyfrifoldeb dros ddwyn adroddiadau i'w Cymdeithas Sir ond heb hawl i bleidleisio na chynrychioli'r Pwyllgor Gwaith yn y Gynhadledd Sir Flynyddol, oni bai eu bod yn Swyddogion Sir.
- (ch) Os daw bwlch yng nghynrychiolaeth y siroedd gall Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas Sir drefnu etholiad i ethol cynrychiolydd newydd am weddill cyfnod y tair blynedd.
- (d) Cedwir un sedd ar y Cyngor Cenedlaethol yn benodol ar gyfer aelod sydd o fewn y 5 mlynedd gyntaf o'u gyrfa addysgu, i gyfrannu fel sylwebydd heb bleidlais.

(Cyngor Cenedlaethol)

Penderfyniad 2: Aelodaeth y Pwyllgor Cyllid a Datblygu

Mae'r Cyngor Cenedlaethol yn galw ar y Gynhadledd i newid cyfansoddiad UCAC fel a ganlyn:

RHEOL 18 – PWYLLGOR CYLLID A DATBLYGU

- (a) Sefydlir Pwyllgor Cyllid a Datblygu. Aelodau'r Pwyllgor fydd: y Llywydd Cenedlaethol, yr Is-lywydd, y Cyn-lywydd, yr Ysgrifennydd Cyffredinol a thri aelod arall o'r Cyngor. Bydd Ymddiriedolwyr yr Undeb yn pennu un o'u plith i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.
- (b) Bydd hawl ethol eilydd o blith aelodau'r Cyngor Cenedlaethol i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor yn ôl yr angen.
- (c) Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf unwaith y tymor, neu ar gais un neu ragor o Swyddogion yr Undeb.
- (ch) Cworwm y Pwyllgor hwn fydd tri aelod.
- (d) Cadeirir y cyfarfodydd gan y Llywydd Cenedlaethol neu yn ei absenoldeb gan yr Is-lywydd.
- (dd) Swyddogaeth y Pwyllgor fydd ymwneud â materion ariannol, cyfansoddiadol a materion yn ymwneud â datblygu'r Undeb, gan gynnwys cyflogaeth ac amodau gwaith gweithwyr UCAC, gweinyddiaeth y Brif Swyddfa ac ymgyrchoedd UCAC.

(Cyngor Cenedlaethol)

B Trefniadaeth Addysg a Chynnwys Addysg

Penderfyniad 3: Manylebau TGAU a Safon Uwch

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Gymwysterau Cymru i sicrhau fod y manylebau ar gyfer pob pwnc yn cael eu rhyddhau mewn da bryd fel y gall athrawon baratoi a bod adnoddau addas yn cael eu darparu yn y Gymraeg yr un pryd â'r Saesneg.

(Cymdeithas Sir Mynwy, Torfaen a Chasnewydd)

Penderfyniad 4: TGAU Cymraeg

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu ar frys ei gynllun gweithredol i gyflwyno'r un cymhwyster TGAU Cymraeg i bob disgybl yng Nghymru.

(Cymdeithas Sir Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe)

Penderfyniad 5: Cymhwyster Newydd yn y Gymraeg

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Gymwysterau Cymru/CBAC i greu cymhwyster ôl-16 newydd yn y Gymraeg fyddai'n addas ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau amrywiol ac a fyddai gyfwerth ag UG/TAU.

(Adran Addysg, Cwricwlwm ac Asesu)

Penderfyniad 6: Y Fagloriaeth

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru a CBAC i sicrhau hyfforddiant priodol i athrawon sy'n dysgu'r fagloriaeth ac i adolygu gweithdrefnau'r Fagloriaeth er mwyn lleihau'r llwyth gwaith a chostau darparu'r cwrs.

(Cynnig cyfansawdd: Adran Addysg Cwricwlwm ac Asesu a Chymdeithas Sir Benfro)

Penderfyniad 7: Y Fagloriaeth

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Gymwysterau Cymru i ail ystyried y modd mae'r Fagloriaeth yn cael ei strwythuro a'i ddyfarnu.

(Cymdeithas Sir Mynwy, Torfaen a Chasnewydd)

Penderfyniad 8: Cwricwlwm i Gymru

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i sicrhau y bydd argymhellion Yr Athro Donaldson yn cael eu cyflwyno'n iawn gan sicrhau:

- cyllido teg
- arweiniad clir a chan rannu gwybodaeth yn effeithiol gydag ysgolion
- adolygu a gweithredu amserlen ymarferol ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm Newydd
- hyfforddiant priodol i'r gweithlu cyfan
- adnoddau yn y Gymraeg o flaen llaw.

(Cynnig cyfansawdd: Adran Arweinwyr Ysgol a Chymdeithas Sir Conwy)

Penderfyniad 9: Cwricwlwm i Gymru

Mae'r Gynhadledd yn galw ar:

- Lywodraeth Cymru a'r consortia i sicrhau cyfleoedd addas i ysgolion arloesi Cymru rannu eu gwybodaeth a'u gweledigaeth am ein cwricwlwm newydd
- Estyn i fod yn sensitif pan fônt n ymweld ag ysgolion sy'n arbrofi ac arloesi

(Cynnig cyfansawdd: Cymdeithas Sir Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful a Chymdeithas Sir Gwynedd)

Penderfyniad 10: Cymwysterau ôl-14

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau dilyniant rhwng y cwricwlwm arfaethedig a'r cymwysterau ôl-14 ac i roi arweiniad rhag-blaen ar sefyllfa TGAU a Safon Uwch o fewn y broses Donaldson er mwyn medru cynllunio'r broses paratoi a hyfforddiant.

(Cynnig cyfansawdd: Adran Addysg, Cwricwlwm ac Asesu a Chymdeithas Sir Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe)

Penderfyniad 11: Ariannu

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau buddsoddiad ariannol sylweddol yn sgil yr holl ofynion cwricwlaidd megis newidiadau i'r Fagloriaeth a chyflwyno Cwricwlwm i Gymru sy'n cynnwys gwneud y Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn statudol.

(Cymdeithas Sir Mynwy, Torfaen a Chasnewydd)

Penderfyniad 12: Lleihau maint dosbarthiadau

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i leihau pob dosbarth Cyfnod Sylfaen sydd â niferoedd anghyfreithlon mewn dosbarth, yn unol â'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, er lles safonau disgyblion ac i leihau llwyth gwaith athrawon.

(Adran Addysg, Cwricwlwm ac Asesu)

Penderfyniad 13: TGAU Seicoleg

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Gymwysterau Cymru i atal rhag gwahaniaethu yn erbyn myfyrwyr cyfrwng Cymraeg a sicrhau nad ydynt yn cymeradwyo cymwysterau oni bai eu bônt ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

(Adran Addysg Cwricwlwm ac Asesu)

C Amodau Gwaith

Penderfyniad 14: Codiad cyflog

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth San Steffan i roi codiad cyflog sy'n adlewyrchiad teg o lafur, ymdrech a llwyth gwaith athrawon o ystyried y gymhariaeth gyda chyflogau swyddi cymharol yn y sector breifat ac yng nghyd-destun rhewi cyflog a chodiadau cyflog o 1% yn unig i athrawon ers 2009.

(Adran Gyflogau, Pensiynau ac Amodau Gwaith)

Penderfyniad 15: Strwythur cyflog ac amodau gwaith

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyd-drafod strwythur cyflog ac amodau gwaith athrawon fydd yn sefydlu hawliau pwysig a sylfaenol i athrawon Cymru.

(Cyngor Cenedlaethol)

Penderfyniad 16: Model cenedlaethol ar gyfer athrawon cyflenwi

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno, ar fyrder, amserlen creu a datblygu cyfundrefn genedlaethol ar gyfer athrawon cyflenwi yng Nghymru yn sgil cyhoeddi adroddiad y tasglu gweinidogol ar gyfer modelau cyflenwi. Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu model cenedlaethol a fydd yn diwallu anghenion

ysgolion Cymru, gan leihau'r baich gweinyddol ar ysgolion ac a fydd yn sicrhau datblygiad proffesiynol i'r athrawon cyflenwi.

(Cynnig cyfansawdd y Cyngor Cenedlaethol a'r Adran Arweinwyr Ysgol)

Penderfyniad 17: Darpariaeth lles ac iechyd awdurdodau lleol

Mae'r Gynhadledd yn galw ar yr Awdurdodau Lleol i sicrhau bod darpariaeth lles ac iechyd y sir yn eglur, yn hysbys, yn gadarn, yn weithredol ac yn rhagweithiol i athrawon yn y gweithle, a bod y ddarpariaeth honno ar gael yn y ddwy iaith.

(Adran Cydraddoldeb)

Penderfyniad 18: Safonau proffesiynol athrawon

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru, wrth adolygu safonau proffesiynol athrawon i sicrhau bod y safonau diwygiedig yn cael eu defnyddio fel datblygiad proffesiynol yn hytrach nag fel arf i fesur perfformiad athrawon.

(Cyngor Cenedlaethol)

Penderfyniad 19: Gwarantu swydd i Athrawon Newydd Gymhwysu

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i warantu swydd am flwyddyn i bob Athro Newydd Gymhwysu yng Nghymru.

(Adran Gyflogau, Pensiynau ac Amodau Gwaith)

Penderfyniad 20: Orlau penodedig yr wythnos

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru, yn sgil datganoli cyflog ac amodau gwaith i Gymru, i osod nifer penodedig o oriau (e.e. 35 awr) y disgwylir i athro weithio mewn wythnos, a dim mwy.

(Cyngor Cenedlaethol)

Penderfyniad 21: Partneriaeth Cefnogi Addysg

Mae'r Gynhadledd yn galw ar y Partneriaeth Cefnogi Addysg (*Education Support Partnership*) i ailsefydlu'r swydd 'Ymgynghorydd Datblygu Rhanbarthol' yng Nghymru ar fyrder er mwyn sicrhau parhad a ffyniant y gwasanaeth hollbwysig hwn i athrawon a darlithwyr Cymru.

(Adran Cydraddoldeb)

Penderfyniad 22: Rhaglen Cyfnewid Pobl Cymru

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys athrawon a darlithwyr yn y Rhaglen Cyfnewid Pobl Cymru fel bod gan addysgwr, sy'n wynebu proses diswyddo, y dewis i adleoli i swydd amgen addas o fewn y gwasanaethau cyhoeddus.

(Adran Gyflogau, Pensiynau ac Amodau Gwaith)

Penderfyniad 23: Amser CPA

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru, yn dilyn datganoli cyflog ac amodau gwaith i osod canllawiau statudol am oriau ac amodau CPA ac i ail ystyried amser digyswllt athrawon er mwyn cynyddu Amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu i o leiaf 20% o'r amserlen ac i gynyddu amser rheolaethol.

(Cynnig cyfansawdd Cymdeithas Sir Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe a Chymdeithas Sir Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful)

Penderfyniad 24: Arolwg o'r sefyllfa staffio

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i gynnal arolwg o'r sefyllfa staffio yn ysgolion Cymru a gofynion dysgu fel swydd, gyda'r nod o leihau'r ganran o athrawon sy'n gadael y proffesiwn.

(Cymdeithas Sir Conwy)

Penderfyniad 25: Hyfforddiant cyflogaeth i benaethiaid

Yn sgil datganoli'r cyfrifoldeb dros gyflogau ac amodau gwaith athrawon i Gymru, mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno elfen o hyfforddiant ar gyflogaeth ac arweiniad ar sut i weithredu'r ddogfen gyflog ac amodau statudol newydd yn rhan o'r hyfforddiant CPCP i benaethiaid.

(Adran Gyflogau, Pensiynau ac Amodau Gwaith)

Penderfyniad 26: Arolwg Amodau Gwaith

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth San Steffan i wneud arolwg o amodau gwaith a morâl athrawon er mwyn ceisio lleihau'r pwysau sydd ar y proffesiwn sy'n arwain at:

- forâl isel iawn ymhlith y gweithlu

- athrawon yn gadael y proffesiwn
problemau recriwtio athrawon a phenaethiaid.

(Cymdeithas Sir Conwy)

Ch Eraill

Penderfyniad 27: Cyfnod Ymgynghori

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru a phwyllgorau Cynulliad Cymru i gadw at eu canllawiau eu hunain, sef bod cyfnod ymateb i ymgynghoriad yn digwydd dros gyfnod o 12 wythnos, yn lle byrhau'r amser hwn sydd wedyn yn gosod pwysau afresymol ar ein swyddogion undeb.

(Adran Gyflogau, Pensiynau ac Amodau Gwaith)



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

[facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) twitter.com/AthrawonCymru

www.ucac.cymru